

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Annwyl Cynghorydd,

FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED

Cynhelir Cyfarfod Fforwm Cyngor Tref a Chymuned yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd Yr Angel, Penybont Ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2019 am 16:00**.

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 16
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 15/07/2019 a 29/07/2019
4. Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol Pen-y-bont ar Ogwr 17 - 22
I ddod gyda Chyflwyniad pwynt pŵer.
5. Glanhau Stryd 23 - 30
6. Materion Brys
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant

K Watson

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol

Dosbarthiad:

Ffôn/Tel: 01656 643643

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Facs/Fax: 01656 668126

Twitter@bridgendCBC

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Cynghorwyr
S Aspey
SE Baldwin
JPD Blundell
MC Clarke
N Clarke
HJ David
P Davies

Cynghorwyr
RM Granville
B Jones
RL Penhale-Thomas
B Sedgebeer
S Dendy
RE Young
CA Webster

Cynghorwyr
CE Smith
SG Smith
JH Tildesley MBE
SR Vidal
MC Voisey
KJ Watts

Agenda Item 3

FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED - DYDD LLUN, 15 GORFFENNAF 2019

COFNODION CYFARFOD Y FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 15 GORFFENNAF 2019, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

S Aspey	SE Baldwin	JPD Blundell	N Clarke
P Davies	Cllr D Evans	RM Granville	E Hyde
C Jones	D Jones	RL Penhale-Thomas	B Sedgebeer
CE Smith	JH Tildesley MBE		

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

N Alderton, H Bennett, MC Clarke, R Davies, S Dendy, L Desmond-Williams, P Gwilliam, Ciaron Jackson, P Jenkins, Jones, B Jones, T Lyddon, A Mckay, KL Rowlands, SG Smith, MC Voisey, W Willis a/ac RE Young

Swyddogion:

Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Pwyllgorau
Sian Hooper	Rheolwr Gwastraff a Strydoedd Glanach
Zak Shell	Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

179. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

180. CYMERADWY'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned, dyddiedig 26 Chwefror 2019, yn gywir.

181. CYFLWYNIAD GAN Y PRIF UWCHAROLYGYDD ALUN MORGAN O HEDDLU DE CYMRU AR BLISMONA YN Y FWRDEISTREF SIROL.

Agorodd y Cadeirydd yr eitem hon drwy gyflwyno'r Prif Uwcharolygydd Alun Morgan i'r Aelodau. Roedd y Prif Uwcharolygydd yn ymddangos gerbron y Fforwm heddiw i roi cyflwyniad llafar ar faterion plismona.

Dyweddodd y byddai'n trafod rhai o'r materion a oedd yn wynebu Heddlu'r De a sut roeddent yn bwriadu ymdrin â rhai o'r problemau a byddai'n eu hamlinellu.

Rhoddodd drosolwg o'r materion dan sylw gan ddweud bod yr heddlu'n dymuno gweithio mor effeithlon â phosibl yn yr hinsawdd bresennol. Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig i'r heddlu ddefnyddio'r adnoddau mwyaf priodol yn yr ardaloedd iawn, gan ddefnyddio data a thechnoleg i'w helpu i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Aeth rhagddo i ganmol y Cyngor am fod mor awyddus i weithio gyda'r heddlu i ddatrys problemau lleol fel digartrefedd, cyflenwi/camddefnyddio cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yna nododd y pum blaenoriaeth roedd yr heddlu wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol yng nghyd-destun plismona, sef cam-drin domestig, troseddu â chyllyll, llinellau cyffuriau, traïs a throseddau rhywiol difrifol eraill, yn ogystal â'r angen i atal ac ymateb i fgythiadau terfysgol ac ymosodiadau posibl gan eithafwyr.

Yna rhoddodd y Prif Uwcharolygydd esboniad manylach o'r hyn yw 'Ilinell gyffuriau', sef sefyllfa sy'n codi pan fydd gangiau cyffuriau o'r dinasoedd mawr yn ehangu eu busnes i drefi llai, gan ddefnyddio trais i yrru'r delwyr cyffuriau llai o'r dref a manteisio ar bobl agored i niwed i werthu cyffuriau. Bydd y delwyr hyn hefyd yn defnyddio Ilinellau ffonau symudol penodol, y 'Ilinellau cyffuriau', i brynu a gwerthu cyffuriau.

Drwy ganolbwytio mwy ar y pum blaenoriaeth hyn, gallai'r heddlu weithio'n fwy cydlynol nag erioed o'r blaen, gan ddefnyddio adnoddau mwy arbenigol i frwydro yn erbyn y problemau dan sylw.

Ychwanegodd fod proses ar waith yn awr yn yr heddlu i greu mwy o gyfleoedd i benodi swyddogion prawf newydd ac i swyddogion drosglwyddo o un heddlu i'r llall, ac mae cynllun mynediad uniongyrchol hefyd ar waith ar gyfer ymchwilwyr.

Nod yr holl newidiadau hyn yw galluogi'r heddlu i ymateb yn fwy effeithiol i'r galw cnyddol i ymdrin ag achosion mwy difrifol. Byddai'r swyddogion ychwanegol yn cael eu defnyddio i ymateb i achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol dros fisodd yr haf, sy'n cynyddu pan fydd y tywydd yn cynhesu.

Gofynnodd un o'r Aelodau a oedd unrhyw gynigion i leihau nifer y gorsafoedd heddlu ac, yn benodol, gorsaf Heddlu Porthcawl.

Cadarnhaodd y Prif Uwcharolygydd fod ystâd yr heddlu'n cael ei hadolygu'n barhaus ond nad oedd unrhyw bryderon ynghylch yr orsaf hon ar hyn o bryd. Ychwanegodd y gallai'r syniad o uno gorsafoedd, a fydd yn digwydd yn fuan yn Llanilltud Fawr, apelio at Borthcawl, ond byddai'n rhaid sicrhau na fyddai adolygiad o'r fath yn gwanhau'r gwasanaeth plismona yn yr ardal. Dywedodd hefyd fod y model ar gyfer Llanilltud Fawr yn seiliedig ar bartneriaeth rhwng yr heddlu, y gwasanaeth tân, ambiwlans a gwylwyr y glannau.

Yna, trafododd y Prif Uwcharolygydd Morgan Ymgrych y Ddraig Goch yn erbyn cyffuriau Dosbarth A. Trefnwyd i aelod o'r heddlu cudd fod ar strydoedd y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2018 er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth ac arrestio'r drwgweithredwyr. Bu'n ymgrych lwyddiannus iawn; cafodd 70 eu harestio ac mae nifer fawr o'r rhain wedi'u carcharu.

Lleihau'r broblem, yn hytrach na'i datrys mae ymgyrchoedd o'r fath, foddyd bynnag, ac anogodd pawb a oedd yn bresennol, ac etholwyr y Fwrdeistref Sirol, i roi gwybod i'r heddlu os oedd ganddynt unrhyw amheuaeth o gwbl fod rhywun yn cyflenwi/defnyddio cyffuriau yn eu hardal.

Yna, rhoddodd y Prif Uwcharolydydd drosolwg o'r Adran Plismona Ffyrrd gan ddweud y byddai beiciau modur yr heddlu, yn ogystal â cheir, yn cael eu defnyddio'n amlach, a byddai system rota fwy modern yn cael ei datblygu i ateb y galw.

Ychwanegodd fod yr heddiw hefyd yn ymwneud yn gynyddol â rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, i helpu'r rhai a oedd â phroblemau iechyd meddwl, yn ogystal â phlant sy'n derbyn gofal. Gallai'r problemau'n ymwneud â'r rhain fod yn ddifrifol ac roedd elfen o risg ynghlwm wrthynt a oedd wedi symud dros amser o'r asiantaeth a oedd yn ymdrin â'r achosion yn wreiddiol, i'r heddlu. Byddai angen adolygu hyn ymhellach hefyd.

Gan droi at broblemau tymhorol mwy cyffredinol, roedd cynlluniau ar waith i ddileu, neu leihau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mae Trecco, y ffair a Newton Green a lleoedd trafferthus o'r fath dros yr haf.

Sicrhaodd y rhai a oedd yn bresennol, fod yr heddlu eisoes yn cynllunio ar gyfer cyngerdd Elvis eleni, ac i reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig â'r digwyddiad. Roedd yn pryderu nad oedd yr heddlu'n cael eu talu am wasanaethau plismona cysylltiedig â'r digwyddiad, a oedd yn costio degau o filoedd o bunnoedd. Roedd un lleoliad, fodd bynnag, wedi cynnig cymorth ariannol i roi cynlluniau partneriaeth ar waith, fel cynlluniau brysbennu'r gwasanaeth ambiwlans a phlant coll.

Soniodd hefyd am y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg Digartrefedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle'r oedd pobl agored i niwed yn cael cymorth, yn enwedig yn ystod y misoedd oeraf pan oeddent ar drugaredd y twydd gwael. Ychwanegodd, fodd bynnag, y dylai partneriaethau sefydlu mwy o gyfleusterau a allai gynnig lle mwy diogel i'r digartref gysgodi yn hytrach na chyngu ar y stryd.

Rhoddodd drosolwg o broblemau mwy lleol, fel camddefnyddio cyffuriau a pharcio yng nghanol y dref Porthcawl, cyn iddo gael ei herio ymhellach am bŵer Swyddogion Gorfodi'r Cyngor i gynorthwyo â phroblemau lleol fel parcio a baw cŵn. Esboniwyd bod gan Swyddogion y Cyngor y pŵer i ddirwyo pobl am barcio'n anghyfreithlon drwy roi Hysbysiadau Cosb iddynt, a byddai hynny o gymorth yn lleol. Roedd yn anoddach, fodd bynnag, dirwyo perchnogion cŵn am beidio â chlirio baw ci gan fod yn rhaid i rywun fod yn dyst i'r drosedd cyn y gellir rhoi Hysbysiad a dirwyo'r perchennog.

Yna, cyfeiriodd y Prif Uwcharolydd Morgan at Ymgyrch Sceptre. Roedd yn mynd rhagddo ers cryn amser ac, ar y dechrau, y nod oedd lleihau troseddau cysylltiedig â chylllyll. Roedd yn bwysig, meddai, cydnabod nad oedd modd datrys y broblem dim ond drwy arrestio pobl. Roedd yn well ganddo ef weithio ar raglen ymgysylltu lawn, mewn partneriaeth â'r ysgolion, y gwasanaeth ieuencnid ac unrhyw asiantaeth arall i atgyfnerthu'r neges 'nad yw cario'n cwl.'

Gofynnodd un o'r Aelodau i'r Swyddog a oedd yn teimlo bod gwasanaeth 101 yr Heddlu'n annigonol o ran gallu'r heddlu i ymateb yn ystyrlon, ac yn gyflym, i alwadau o'r fath gan y cyhoedd.

Dywedodd y Prif Uwcharolygydd Morgan fod De Cymru yn parhau i berfformio'n well na'r cyfartaledd a bod tua 86% o'r galwadau'n cael eu hateb o fewn yr amseroedd gofynnol. Ychwanegodd fod y mater hwn braidd yn niwlog oherwydd bod rhai'n ei chael yn anodd gwahaniaethu rhwng galwadau 101 a 999, a rhoddodd enghreifftiau o'r modd roedd pobl yn camddefnyddio'r system.

Gofynnodd un o'r Aelodau a allai Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Atebodd y Prif Uwcharolygydd Morgan fod pwerau PCSO yn gyfyngedig ac nid oeddent yn cynnwys y pŵer i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig am wahanol droseddau, gan nad oedd ganddynt bwerau i gadw'r cyhoedd yn gaeth.

Daeth y cyflwyniad gan yr heddlu i ben a diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Uwcharolygydd gan ddweud bod yr Aelodau wedi cael cyflwyniad diddorol ac addysgiadol.

PENDERFYNWYD: Y byddai Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned yn nodi'r cyflwyniad llafar uchod.

182. HYNT Y RHAGLEN TEITHIO LLESOL YM MHEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Polisi, Datblygu a Thrafnidiaeth adroddiad. Diben hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am Deithio Llesol ym Mhen-y-bont ar

FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUDED - DYDD LLUN, 15 GORFFENNAF 2019

Ogwr. Rhoddwyd y wybodaeth hon i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned ar 28 Mehefin 2019.

Esboniodd y cefndir drwy ddweud bod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi dod i rym ym mis Medi 2014 ac, ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhoi arian grant i Gynghorau Cymru i'w helpu i weithredu'r rhaglenni teithio llesol a nodwyd ym Mapiau Rhwydwaith Integredig y cynghorau unigol. Bob blwyddyn, caiff cynghorau eu gwahodd i gyflwyno cynigion i hyrwyddo teithio llesol gan gynnwys llwybrau sy'n cyd-fynd â'r cynllun llwybrau diogel mewn cymunedau/i ysgolion. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r cynllun hwn hefyd. Pan fo hynny'n briodol ac yn berthnasol, mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu rhannau o'r rhwydwaith teithio llesol drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr.

Yna, aeth Arweinydd y Tîm Polisi, Datblygu a Thrafnidiaeth rhagddo i roi cyflwyniad, a'r prif ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am hynt y gwaith ac esbonio'r prosesau mae Swyddogion y Cyngor yn eu dilyn wrth benderfynau ar y cynlluniau a'u hasesu.

Roedd y cyflwyniad yn ymdrin â'r prif bwyntiau a'r themâu a ganlyn:-

Prif ddiben y Ddeddf oedd sicrhau bod pobl yn dewis cerdded a beicio o le i le dros bellteroedd byr/byrrach.

Cyflwyno map rhwydwaith Teithio Llesol i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo ym mis Hydref 2017. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys:-

- Y mapiau rhwydwaith presennol (ERM)
- Map Rhwydwaith Integredig (INM)
- Map a fydd ar gael i'r cyhoedd

Hynt y gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Mae Teithio Llesol yn integreiddio â pholisiau trafnidiaeth ehangach:-

1. Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)
2. Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLI)

Gwella ac ariannu cynlluniau i wella'r seilwaith teithio llesol

- Cynlluniau i'w cynnwys yn y Map Rhwydwaith Integredig a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol
- Cynlluniau sy'n gysylltiedig ac yn cyd-fynd â llwybrau diogel mewn cymunedau/ i ysgolion
- Cynlluniau i'w cynnwys yn y cynlluniau teithio i ysgolion neu gynlluniau mynediad cymunedol
- Cynlluniau i'w datblygu a'u hariannu drwy'r broses defnyddio tir fel rhan o :-

1. Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
2. Datblygiadau preswyl
3. Datblygiadau'r GIG/Ymddiriedolaeth
4. Adfywio Canol Trefi
5. Datblygu seilwaith trafnidiaeth.

Yna, cafwyd gwybodaeth am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 – 2018/19, a'r cyllid ar gyfer 2019/20:-

FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED - DYDD LLUN, 15 GORFFENNAF 2019

Programme	Scheme	Grant (£'000)
Local Transport Fund	Penprysg Road Bridge	240
	A4063 Sarn – Maesteg	50
	Bridgend to Cochchurch	750
Sub Total		1,040
Local Transport Network Fund	Bus Corridors	150
	Coity Higher	218.3
	Newton Ph. 2	243
Sub Total		461.3
Active Travel Fund	Core development funding	316
	Brackla to Bridgend	717
	Pencoed to Technology Park	898
Sub Total		1,931
Grand Total		3,582.30

Nodau Ilesiant Teithio Llesol yw creu Cymru:

- lewyrchus
- cydnerth
- iach
- mwy cydradd
- cydlynol
- sydd â diwylliant bywiog a
- chyfrifoldeb byd-eang

Hyrwyddo llwybrau Teithio Llesol drwy:-

Gynlluniau hirdymor e.e. datblygu defnydd tir;
 Atal e.e. lleihau dibyniaeth ar geir, gwersi beicio mewn ysgolion, cynlluniau beicio i'r gwaith yn y gweithle;
 Integreiddio e.e. defnydd tir a defnyddio mwy nag un dull o deithio;
 Cydweithredu e.e. cymunedau, ysgolion etc;
 Cyfranogiad e.e. defnyddwyr trafnidiaeth, cerddwyr, beicwyr etc

Teithio Llesol a'r broses gynllunio

Nod y broses o gynllunio datblygiadau yw:

1. Integreiddio a chydlynu cynlluniau defnydd tir a thrafnidiaeth
2. Hygyrchedd i bawb (dewis ehanguach)
3. Lleihau'r angen i deithio
4. Blaenoriaethu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus
5. Cefnogi cerbydau ag allyriadau eithriadol o isel (cerbydau ULEV)

Mae'r broses rheoli datblygiadau'n gyfrifol am:

- Ddyluniad a chynllun strydoedd
 (Llawlyfr strydoedd)
 (Canllaw ar ddylunio teithio llesol)
 (Egwyddorion dylunio trefol eraill)
- Asesiadau trafnidiaeth
- Lleihau effaith trafnidiaeth
- Yr egwyddor mai'r 'Ilygrwr sy'n talu'

FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUDED - DYDD LLUN, 15 GORFFENNAF 2019

Yna, soniodd Arweinydd y Tîm Polisi, Datblygu a Thrafnidiaeth am y datblygiadau defnydd tir sydd wedi elwa ar gyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer cynlluniau teithio llesol rhwng 2014 a 2018.

Gan mai hwn oedd diwedd y cyflwyniad, diolchodd yr Arweinydd (a'r Cadeirydd) i'r Swyddog am ei gyflwyniad.

Dyweddodd Aelod o Gyngor Cymuned Coety Uchaf ei fod wedi'i siomi ynglŷn â chais Cyngor Cymuned Coety Uchaf. Cafodd y cais gwreiddiol ei wrthod a phan gyflwynwyd cais arall am gynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol, ni chaswant yr holl arian grant roeddent yn credu roedd ganddynt hawl iddo. Ychwanegodd Aelod o Gyngor Cymuned Llangrallo i'w cais hwythau am lwybr beicio o Heol-y-Cyw i ardaloedd cyfagos fel Pencoed gael ei wrthod. Roedd yn arbennig o siomedig gan nad oedd fawr ddim siopau yn ardal Heol-y-Cyw.

Dyweddodd Arweinydd y Tîm Polisi, Datblygu a Thrafnidiaeth fod yn rhaid i'r ceisiadau fodloni rhai meinu prawf penodol i fod yn llwyddiannus. Roedd hyn yn dibynnu at gynllun datblygiadau tai; meinu prawf defnyddio tir (yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol). Roedd hefyd angen sicrhau mynediad i draffig at ddibenion gwasanaethu datblygiadau. Byddai Grŵp Rhwydwaith wedyn yn ystyried ffiniau anheddiadau a oedd yn gwahanu ac yn uno cymunedau, er mwyn gweld a fyddai'n bosibl cyflwyno llwybrau beiciau a Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn yr ardal. Cyn rhyddhau'r cyllid llawn, roedd angen cyflwyno Achos Busnes i sicrhau Llywodraeth Cymru y byddai'r cyhoedd a phlant ysgol etc. yn defnyddio llwybrau tebyg i'r rhai a nodir uchod.

Wrth ymateb i ymholiadau'r ddau Aelod uchod, ychwanegodd bod ceisiadau'r ddau Gyngor Cymuned wedi'u llesteirio gan broblemau'n ymwneud â pherchnogaeth/defnydd tir mewn perthynas â'r darnau o dir roedd y llwybrau swyddogol yn mynd drostynt neu drwyddynt.

At hyn, dywedodd fod nifer fawr o gynigion wedi dod i law yn ardal Coety Uchaf ar gyfer cynlluniau mannau croesi. Gofynnodd i Gyngor Cymuned Coety Uchaf restru'r rhain yn nhrefn blaenoriaeth a'i hanfon at y Pwyllgor gan nad oedd digon o arian i fwrw ymlaen â rhestr hirfaith mewn un ardal benodol o'r Fwrdeistref Sirol.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth i ben ar ôl yr eitem hon gan ddweud y byddai 500 o dai ychwanegol, yn ôl yr amcangyfrifon, yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn mewn ardaloedd gwahanol o'r Fwrdeistref Sirol, a hynny o ganlyniad i'r datblygiadau tai newydd a fyddai'n cael eu codi. Bydd cynlluniau Teithio Llesol, felly, yn sicr o barhau cyhyd ag y bo'r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau. Byddai'r dull hwn o deithio hefyd yn helpu i leihau'r defnydd o gerbydau modur a'r llygredd a gaiff ei ryddhau i'r atmosffer oherwydd y dull hwn o deithio.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad cysylltiedig.

183. GLANHAU STRYDOEDD

PENDERFYNWYD: O dan gyfarwyddyd y Cadeirydd, cytunodd Aelodau'r Fforwm i ohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

184. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:27

FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED - DYDD LLUN, 29 GORFFENNAF 2019

COFNODION CYFARFOD Y FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 29 GORFFENNAF 2019, AM 09:30

Presennol

Y Cyngorydd HJ David – Cadeirydd

S Aspey	SE Baldwin	H Bennett	G Thomas
JPD Blundell	M Buckley	NA Burnett	MC Clarke
N Clarke	L Davies	P Davies	S Dendy
L Desmond-Williams	D Evans	T Giffard	CA Green
P Jenkins	C Jones	T Lyddon	RL Penhale-Thomas
AA Pucella	B Sedgebeer	CE Smith	JC Spanswick

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

N Alderton, R Davies, RM Granville, P Gwilliam, Ciaron Jackson, E Jones, B Jones, D Jones, A Mckay, CJ Powson, SG Smith, JH Tildesley MBE, KJ Watts, W Willis a/ac RE Young

Swyddogion:

Mark Galvin Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Gill Lewis Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro

185. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ymddiheuriadau am Absenoldeb:-

A Wilkes
G Letman
Y Cyng. C Webster
Y Cyng. N Clarke
Y Cyng. K Watts

186. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

187. Y STRATEGIAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG (SATC) 2020-21 HYD 2023-24 - DIWEDDARIAD A'R YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB 2019 - YMGYSYLLTU Â CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a ddiweddarai'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ynglŷn â SATC 2020-21 hyd 2023-24. Pwrpas yr adroddiad hefyd oedd hysbysu'r Aelodau ac eraill ynglŷn â'r broses ymgynghori ar Gyllideb SATC 2019 er mwyn gwella'r gwaith ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned.

Rhoddai'r adroddiad beth gwybodaeth gefndirol a chafwyd ynddo gadarnhad mai'r bwriad oedd ymgynghori ar Gyllideb SATC 2019 rhwng 9 Medi 2019 a 3 Tachwedd 2019.

Cafwyd yn adran nesaf yr adroddiad amlinelliad o'r dulliau a ddefnyddid i gynnal yr ymgynghoriad, gan gynnwys ymgynghoriad ar-lein ac ar bapur, yn ogystal â gosod hysbysebion mewn llefydd cyhoeddus.

Cynhelid cyfarfodydd cyhoeddus hefyd a'r bwriad yw ymgysylltu â Chyngorau Tref a Chymuned, gan eu bod hwy yn ymgyngoreion pwysig iawn.

Yna, rhoddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 gyflwyniad PowerPoint a oedd yn dwyn y teitl, 'Briff yngylch Cyllideb y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig'.

Esboniodd fod cyllideb gyfredol y Cyngor ar gyfer 2019/20 wedi'i dyrannu fel a ganlyn:

Cyfarwyddiaeth/Maes Cyllidebol	Cyllideb 2019-20 £'000
Cyfarwyddiaeth	
Addysg a Chymorth i Deuluoedd	21,347
Ysgolion	94,861
Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles	70,894
Cymunedau	25,422
Y Prif Weithredwr	18,667
Cyfanswm Cyllideb pob Cyfarwyddiaeth	231,191
Cyllidebau ar draws y Cyngor	
Cyllido Cyfalaf	7,329
Ardollau	7,134
Ardoll Prentisiaethau	700
Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor	14,854
Premiymau Yswiriant	1,588
Cynnal a Chadw Adeiladau	870
Costau sy'n gysylltiedig â Phensiynau	430
Cyllidebau eraill ar draws y Cyngor	6,713
Cyfanswm y Cyllidebau ar Draws y Cyngor	39,618
Cyfanswm	270,809

Ariennir y rhan fwyaf o'r gyllideb net gan Lywodraeth Cymru a thrwy daliadau'r Dreth Gyngor. Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid o'r Grant Cynnal Refeniw oddi wrth Lywodraeth Cymru, ond mae'r Cyngor hefyd yn cael cyfran o drethi annomestig / busnes oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r 2 ddyraniad hyn yn sefydlog ac maent yn cyfrannu tuag at 71% o'r cyllid. Daw'r gweddill o'r Dreth Gyngor. Dyma grynodeb a dadansoddiad o'r dosraniad:-

	£	%
Y Grant Cynnal Refeniw	145,354,407	53.67
Trethi Annomestig	46,452,373	17.15
Incwm drwy'r Dreth Gyngor	79,001,854	29.18
Cyfanswm	270,808,634	100%

O ran y cyllid y bydd yn ei gael oddi wrth Lywodraeth Cymru, bwriad y Cyngor yw cynllunio ar sail 3 senario, h.y. y Senario Orau, y Senario Fwyaf Tebygol a'r Senario Waethaf. Cyfeirir at gyfanswm y Grant Cynnal Refeniw a'r Cyfraddau Annomestig fel Cyllid Allanol Cyfun.

Senarios SATC 2020-21 hyd 2023-24 -%
Newid yn y Cyllid Allanol Cyfun

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
	% y Newid	% y Newid	% y Newid	% y Newid
Y Senario Orau	-1.0%	-1.0%	-1.0%	-1.0%
Y Senario Fwyaf Tebygol	-1.5%	-1.5%	-1.5%	-1.5%
Y Senario Waethaf	-3.0%	-3.0%	-3.0%	-3.0%
Cynnydd yn y Dreth Gyngor	+4.5%	+4.5%	+4.5%	+4.5%

Effaith y Gwahanol Senarios ar Gyllid y Cyngor:

Cyfanswm y Cyllid Allanol Cyfun y mae'r Cyngor yn ei gael yn 2019/20 yw £191.807 miliwn. Dangosir isod effaith y 3 senario o ran cyllid Llywodraeth Cymru ar gyllideb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y Senario Fwyaf Tebygol yn arwain at leihad o £2.8 miliwn yng nghyllid y Cyngor, cyn ystyried unrhyw wasgfeydd ychwanegol.

Senario	% y Ileihad yn y Cyllid Allanol Cyfun	Lleihad mewn miliynau
Y Senario Orau	-1.0%	£1.918m
Y Senario Fwyaf Tebygol	-1.5%	£2.877m
Y Senario Waethaf	-3.0%	£5.754m

Effaith Gwahanol Gynnydd yn y Dreth Gyngor

Y Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer eiddo Band D yn 2019/20 yw £1,470.87 ar hyn o bryd. Roedd y 3 senario yn y SATC hefyd yn tybio y byddai'r Dreth Gyngor yn cynyddu 4.5% ac y byddai hynny'n creu £3.5 miliwn, yn rhannol i wneud hyn iawn am y lleihad yn y Cyllid Allanol Cyfun ond hefyd yn rhannol i ysgwyddo'r gwasgfeydd ychwanegol. Mae'r wybodaeth ganlynol yn adlewyrchu'r gostyngiad neu'r cynnydd mewn incwm y gellid ei gasglu gan ddibynnu ar ganran y cynnydd yn y Dreth Gyngor y bydd y Cyngor yn ei chymeradwyo. Os yw'r gyfradd islaw'r 4.5% a dybir yn y SATC, mae'n bosib y bydd angen lleihau rhagor ar y gyllideb er mwyn mantoli'r gyllideb.

Cynnydd yn y Dreth Gyngor Y Dreth Gyngor Ychwanegol a Gesglir

+4.5%	Cynnydd Tybiedig
+3.0%	-£1.185m
+4.0%	-£0.395m
+5.5%	+£0.790m
+6.0%	+£1.185m
+6.5%	+£1.580m

Y Gwasgfeydd Ychwanegol ar y Cyngor

Amlinellir isod y gwahanol wasgfeydd ar y Cyngor, sy'n ychwanegol at y gostyngiad yn y cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru.

At ei gilydd, mae'r gwasgfeydd hyn yn gyfystyr â thros £10.6 miliwn. Mae'r dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt wedi arwain at wasgfa ychwanegol ar y gyllideb.

Costau staffio - Effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol ynghyd â'r dyfarniadau cyflog na wyddys amdanyst (2% ar gyfartaedd yn 2019-20).

Cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr at bensiynau athrawon.

Gwasgfeydd o ganlyniad i chwyddiant - saif y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar 2% ar hyn o bryd. Cynnydd ym mhrisiau ynni. Effaith Brexit, ac ati.

Gwasgfeydd deddfwriaethol - e.e. Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Senarios SATC 2021-21 hyd 2023-24 a'r effaith ar y toriadau cyllidebol angenrheidiol

Yn seiliedig ar y Senario Fwyaf Tebygol, mae'r Cyngor yn wynebu lleihad o dros £35 miliwn dros y 4 mlynedd nesaf o gyllideb o dros £270 miliwn - mae hyn gyfystyr â 13% o'r gyllideb gyfredol, neu 20% o'r gyllideb ac eithrio ysgolion.

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Y Senario Orau	9,773	7,584	7,398	7,204	31,959
Y Senario Fwyaf Tebygol	10,732	8,519	8,309	8,093	35,654
Y Senario Waethaf	13,609	11,267	10,932	10,595	46,403

Statws Risg y Cynigion Cyfredol i Leihau'r Gyllideb

Mae'r tabl canlynol yn adlewyrchu cynnydd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i wneud hyd yma wrth sicrhau'r arbedion a ddangosir. Nid yw 83% o'r cynigion sy'n ymwneud ag arbedion, neu £29.5 miliwn o'r £35 miliwn, wedi eu datblygu ar hyn o bryd neu nid ydynt hyd yn oed wedi'u nodi. Yn ogystal â hynny, bydd yn rhaid adolygu'r cynigion hynny sydd eisoes wedi'u nodi a bydd yn rhaid penderfynu a ydynt yn dal i fod yn hyfyw ac a oes modd eu gwreddu. Felly, gallai'r diffyg hwn gynyddu.

Blwyddyn	GWYRDD: Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu ac mae modd ei weithredu	MELYN : Mae'r cynnig yn cael ei ddatblygu ond mae ei weithredu yn peri risgiau	COCH: Nid yw'r cynigion wedi'u datblygu'n llawn ac mae eu gweithredu yn peri risgiau sylwedol	Y toriadau a nodwyd yn y gyllideb hyd yma	Y toriadau yn y gyllideb nad ydynt wedi'u datblygu hyd yma	Y cyfanswm angenrheidiol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2020-21	37	1,040	2,603	3,680	7,052	10,732
2021-22	0	975	584	1,559	6,960	8,519
2022-23	0	900	0	900	7,409	8,309
2023-24	0	0	0	0	8,093	8,093
Cyfanswm	37	2,915	3,187	6,139	29,514	35,653
Y cyfanswm angenrheidiol mewn canrannau	0%	8%	9%	17%	83%	100%

Amlinelloedd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 y Toriadau Targed ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth hyd 2023-24:-

Cyfarwyddiaeth	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	Cyfanswm
	Targed	Targed	Targed	Targed	Targed
Addysg a Chymorth i Deuluoedd	1,911	1,465	1,423	1,379	6,178
Ysgolion	949	949	949	949	3,794
Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles	2,933	2,348	2,293	2,236	9,810
Cymunedau	2,622	1,999	1,940	1,880	8,441
Y Prif Weithredwr	2,318	1,758	1,705	1,650	7,430
CYFANSWM	10,732	8,519	8,309	8,093	35,653

Daeth y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 â'i hadroddiad i ben drwy ddatgan bod gan y Llywodraeth adolygiad gwariant cynhwysfawr yn yr arfaeth a allai gael peth effaith ar y cyllid y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei gael oddi wrth Lywodraeth Cymru. Nid oedd dim sicrwydd eto ynghylch amseru'r adolygiad hwnnw a gallai hynny arwain at y senario waethaf, h.y. ni fyddai modd i'r Cyngor bennu ei SATC tan gyn hwyred â mis Mawrth. Cymharer hyn â'r amser arferol, sef mis Chwefror fel rheol.

Ychwanegodd fod peth ansicrwydd hefyd ynghylch y cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog a phensiynau i staff addysgu. Gallai hynny, ynghyd ag amseru unrhyw gyllid grant, hefyd gael effaith ar waith cwblhau'r SATC. Os caiff hyn ei gadarnhau tua diwedd y flwyddyn, yn hytrach chyn hynny, bydd fel rheol yn rhy hwyr i'w gynnwys yng nghyfrifiadau cyffredinol y gyllideb, a fyddai'n rhoi darlun mwy cywir o sefyllfa ariannol y Cyngor.

Ychwanegodd yr Arweinydd nad oedd y Cyngor ar hyn o bryd yn gwybod faint fyddai'r Grant Cynnal Refeniw y flwyddyn nesaf. Gan mai'r Grant hwn oedd ffynhonnell incwm fwyaf y Cyngor, a than fod y sefyllfa'n gliriach, nid oedd modd darogan yr union arbedion y byddai gofyn i'r Cyngor eu gwneud.

Yna, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oedd ganddynt gwestiynau ynghylch yr adroddiad esboniadol a'r cyflwyniad ategol.

Dyweddodd Aelod ei fod yn galondid gweld bod bwriad i ddefnyddio gwahanol ddulliau ymgynghori ag etholwyr, gan gynnwys ymgysylltu â phobl o wahanol oedrannau, h.y. pobl iau a phobl hŷn yn y gymdeithas, a hynny er mwyn cryfhau'r fenter a gyflwynwyd gyntaf ychydig flynyddoedd yn ôl.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod am grybwyllyn hyn ac ychwanegodd fod ymgynghori wyneb yn wyneb â'r cyhoedd ar y SATC bellach hefyd yn bosib. Fel arall, gallai pobl gwblhau arolwg ar-lein os oedd yn well ganddynt.

Hysbyddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod rhagor o ymgynghori ar y SATC wedi bod â'r cyhoedd y tu allan i'r awdurdod lleol dros y blynnyddoedd diwethaf, ac roedd hyn yn cynnwys y sylwadau a ddaeth i law ynglŷn ag

ymhle yn union y dylai toriadau ddigwydd. Roedd y Swyddogion (ynghyd ag Aelodau'r Cabinet) bellach yn ymgysylltu â'r cyhoedd at y diben hwn drwy sesiynau mewn llyfrgelloedd lleol a thrwy gyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd digwyddiadau ymgynghori hefyd yn digwydd yn ystod y dydd a chyda'r hwyr er mwyn annog pobl sy'n gweithio yn ystod y dydd i fod yn rhan o'r broses ymgynghori. Ychwanegodd y cynhelid y sesiynau mewn gwahanol ardaloedd daearyddol yn y Fwrdeistref Sirol.

Dyweddodd y Prif Weithredwr ei bod yn bwysig ymgysylltu â'r cyhoedd ar gynigion y Cyngor er mwyn esbonio fod y Cyngor yn wynebu heriau anos bob blwyddyn, a hynny â chyllideb a oedd yn crebachu drwy'r amser. Yn ei farn ef, roedd yn bwysig bod etholwyr yn llawn sylweddoli nad oedd modd i'r Awdurdod gyflenwi rhai gwasanaethau allweddol fel y gallai yn y gorffennol gan fod ganddo, yn syml iawn, lai o arian i wneud hynny. Ychwanegodd fod rhai gwasanaethau anstatudol bellach wedi'u diddymu'n llwyr a dywedodd y gallai hyn fod yn dueddiad yn y tymor hirach. Esboniodd y byddai gan y Cyngor lai o staff yn y dyfodol ac y byddai'n rhaid iddo bellach weithio mewn ffordd fwy arloesol er mwyn goresgyn heriau a allai ddod i'w ran yn y dyfodol.

Diolchodd Clerc Cyngor Tref Pencoed i'r Swyddogion am y cyflwyniad heddiw. Serch hynny, ategodd y byddai'n awyddus i ddysgu rhagor am Gyllideb Gyfalaf y Cyngor ynghyd â'r sefyllfa o ran ei Gyllideb Refeniw.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai gwybodaeth am Gyllidebau Cyfalaf a Refeniw'r Awdurdod yn cael ei rhannu yn rhan o'r broses ymgynghori. Y bwriad hefyd yw esbonio'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyllideb.

Ategodd yn gyflym fod y cyllid refeniw a ddyrannwyd i'r Cyngor yn ddigon i ysgwyddo'r costau dydd i ddydd, gan gynnwys costau staffio. Yn sicr ddigon, roedd y rhan fwyaf o'r elfen hon o gyllideb y Cyngor yn cael ei gwario ar gostau staffio. Ar y llaw arall, roedd yr Awdurdod yn defnyddio'i gyllid cyfalaf i fuddsoddi yn ei asedau dros nifer o flynyddoedd. Dan y Rhaglen Gyfalaf, roedd modd benthyg i ariannu a/neu fuddsoddi mewn rhai cynlluniau yr oedd yn bwriadu'u cyflwyno. Fodd bynnag, rhaid oedd ad-dalu'r cyllid hwn. Ariennir nifer o gynlluniau penodol sy'n perthyn i'r Rhaglen Gyfalaf drwy grantiau allanol.

Hysbysodd Aelod (Cadeirydd Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb y Cyngor) fod y Panel yn 'cysgodi' sefyllfa ariannol y Cyngor o gychwyn hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol pan osodwyd y SATC, fel rhyw fath o gyfaill beirniadol. Ategodd hefyd fod y panel yn cyflwyno argymhellion i'r Cabinet ar rai cynigion cyllidebol drwy'r broses graffu. Esboniodd fod gan Gynghorau Tref a Chymuned swyddogaeth bwysig wrth gefnogi'r awdurdod lleol, yn arbennig felly wrth ariannu prosiectau cymunedol amrywiol drwy eu praeseptau. Gellid cynyddu'r praeseptau at y diben hwn. Dywedodd ei bod yn bwysig peidio â pharhau i gwtogi ar wasanaethau rheng flaen lle bo hynny'n bosib.

Nododd yr Arweinydd fod Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Cyllideb yn gwneud gwaith rhagorol wrth roi cyngor ac adborth i weithrediaeth y Cyngor ynglŷn â'r SATC. Ategodd fod aelodau'r Panel hwnnw yn cynrychioli holl grwpiau gwleidyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac nid y pleidiau mwyafrifol yn unig.

Roedd Is-Gadeirydd y Fforwm o'r farn fod cefnogi'r Cyngor yn yr hinsawdd ariannol presennol yn gynyddol bwysig, a hynny gan fod ei gyllideb yn lleihau bob blwyddyn. Drwy weithio mewn partneriaeth, roedd gan sefydliadau megis Cynghorau Tref a Chymuned swyddogaeth allweddol wrth gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu neu gynnal safleoedd bws, meinciau mewn parciau, llefydd/meysydd chwarae, toledau cyhoeddus a chyfleusterau tebyg eraill sydd o fudd i'r cyhoedd.

FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUDED - DYDD LLUN, 29 GORFFENNAF 2019

Roedd Aelod o'r farn y byddai'n fuddiol petai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn datblygu rhaglen ymhob ward o gynlluniau y gallai helpu i'w datblygu neu eu cynnal, gan gynnwys drwy'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Ychwanegodd y byddai hyn yn cyfrannu i sicrhau arbedion effeithlonwyd i'r Cyngor.

Cydnabu'r Prif Weithredwr bwysigrwydd ymdrechion fel hyn i gydweithio yn y dyfodol am fod yr awdurdod lleol yn wynebu toriadau parhaus, gan gynnwys toriadau i feisydd gwasanaeth y cwtogwyd arnynt eisoes ar fwy nag un achlysur. Wrth i'r sefyllfa hon barhau, roedd pethau'n mynd yn gynyddol anodd ar y Cyngor.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi colli 400 o swyddi ers i'r toriadau gychwyn, ac roedd hyn yn anochel yn arwain at golli neu leihau gwasanaethau.

Os yw'r un gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan y ddwy haen o awdurdod, dywedodd Aelod ei bod yn bwysig fod hyn yn digwydd yn ysbeidiol ac yn brydlon. Enghraift o hyn oedd torri glaswellt.

